

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

14/09/26

Annwyl Rieni,

Parthed: Tudalen Facebook Ysgol Pen Barras

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod bod yr ysgol ar hyn o bryd yn adolygu defnydd a phwrpas ein tudalen Facebook.

Rydym yn ymwybodol iawn fod tudalen Facebook Ysgol Pen Barras wedi bod yn boblogaidd iawn dros y blynnyddoedd, ac rydym yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae wedi gallu rhoi cipolwg i rieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach ar fywyd prysur a hapus yr ysgol. Mae dathlu llwyddiannau, gweithgareddau a phrofiadau ein plant yn parhau i fod yn bwysig iawn i ni.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn byw mewn byd digidol sy'n newid yn gyflym. Mae ein dealltwriaeth o breifatrwydd, diogelu data, diogelwch ar-lein a'r defnydd o ddelweddau ar gyfryngau cymdeithasol yn parhau i ddatblygu.

Yn ogystal, mae canllawiau diweddar yr NSPCC, a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2026, yn tynnu sylw at yr angen i ysgolion a sefydliadau ystyried yn ofalus sut mae lluniau a fideos o blant yn cael eu cymryd, eu rhannu a'u storio, yn enwedig yng nghyd-destun cyfryngau cymdeithasol a datblygiadau mewn technoleg.

O ganlyniad, credwn ei bod yn amser priodol i ni ailystyried y ffordd rydym yn defnyddio Facebook.

Wrth symud ymlaen, ein bwriad yw lleihau faint o gynnwys rydym yn ei gyhoeddi sy'n cynnwys ffotograffau adnabyddadwy o blant, yn hytrach na defnyddio Facebook fel cofnod parhaus o weithgareddau dyddiol yr ysgol.

Bydd y dudalen, fodd bynnag, yn parhau i fod yn ffordd ddefnyddiol o:

- hyrwyddo digwyddiadau ac achlysuron sydd ar ddod;
- rhannu negeseuon a gwybodaeth berthnasol;
- atgoffa teuluoedd am ddyddiadau a gweithgareddau pwysig;
- dathlu a hyrwyddo bywyd yr ysgol mewn ffordd briodol;
- cryfhau'r cysylltiad rhwng yr ysgol, ein teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129

E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk

Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

Nid penderfyniad sy'n deillio o unrhyw ddigwyddiad neu bryder penodol yw hwn. Yn hytrach, mae'n rhan o'n cyfrifoldeb parhaus fel ysgol i adolygu ein harferion ac i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r byd digidol presennol, disgwyliadau teuluoedd, a'r pwyslais cynyddol ar breifatrwydd a diogelwch gwybodaeth.

Rydym hefyd yn cydnabod bod barn am gyfryngau cymdeithasol yn amrywio. Mae rhai teuluoedd yn mwynhau gweld lluniau a diweddariadau rheolaidd, tra bod eraill, yn ddealladwy, yn fwy gofalus ynghylch ôl troed digidol eu plant. Ein nod felly yw ceisio sicrhau cydbwysedd synhwyrol a chynhwysol, gan barhau i gyfathrebu a dathlu fel cymuned ysgol, ond gan roi preifatrwydd a lles ein Deaplant wrth wraidd ein penderfyniadau.

Hoffem ddiolch i chi am eich dealltwriaeth, eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Mae rhannu a dathlu profiadau ein plant yn parhau i fod yn rhywbeth rydym yn ei werthfawrogi'n fawr, ond mae sicrhau eu preifatrwydd a'u diogelwch, nawr ac i'r dyfodol, yr un mor bwysig.

Mae posib i rieni gyflwyno awgrymiadau wrth gwblhau'r holiadur ganlynol. Ymatebin erbyn 21.09.26 os gwelwch yn dda.

<https://forms.cloud.microsoft/e/ib7T4hiNFD>

Yn gywir,

Dyfan Phillips

Pennaeth

Ysgol Pen Barras